

## City & Guilds Diploma in Professional Cookery Level 1



### Yn gwyno

Byddwch yn gweithio yng ngheginau a bwyta'r coleg ac yn cael eich hyfforddi at safon diwydiant, yn paratoi prydau ac yn gweini ar y cyhoedd yn ddyddiol

### Dyma'r cwrs i chi os...

- ... Rydych yn mwynhau gweithio dan bwysau
- ... Rydych eisiau gweithio mewn amgylchedd prysur a heriol
- ... Rydych eisiau dechrau gyrfa fel pen-cogydd

### Beth fyddaf yn ei wneud?

Mae'r diwydiant lletygarwch ac arlwyyo yn ddewis gyrfa heriol, ond hynod gwerth chweil, sy'n



## TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

tyfu'n gyflym.

Mae ein tiwtoriaid i gyd yn gymwys ac yn brofiadol tu hwnt yn eu maes, a byddant yn cynnig y sgiliau sydd eu hangen arnoch chi er mwyn datblygu i'r cwrs Coginio Proffesiynol Lefel 2.

Mae'r pynciau y byddwch yn mynd i'r afael â nhw ar y cwrs yn cynnwys:

- Diogelwch Bwyd
- Sgiliau Cyflogadwyedd
- Iechyd a Diogelwch
- Bwyd iachach a dietau arbennig
- Cyflwyniad i offer y gegin
- Berwi, potsio a stemio
- Pobi, rhostio a grilio
- Ffrio dwfn a ffrio bas
- Adfywio bwyd parod
- Paratoi bwyd oer
- Crefft coginio proffesiynol
- Gwasanaeth bwyty - gwasanaeth bwyd, diod a bar
- Sgiliau barista coffi

Mae'r Dystysgrif Gwasanaeth Bwyd a Diod Cyffredinol Lefel 1 yn gymhwyster ychwanegol. Byddwch yn cael profiad o weithio mewn amgylchedd gwaith realistig yng nghegin a bwyty'r campws, sef Morels ar Gampws Crosskeys a Cwtch ym Mharth Dysgu Blaenau Gwent. Byddwch un ai'n coginio neu yn gweini ar gyfer y cyhoedd.

Byddwch yn cael eich asesu mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys:

- Asesiadau/aseiniadau ymarferol ac ysgrifenedig
- Cyflwyniadau ac arddangosiadau
- Portffolios gwaith
- Perfformiad ac arsylwi
- Arddangos sgiliau ymarferol

A byddwch yn cyflawni'r cymwysterau canlynol:

- Coginio Proffesiynol Lefel 1
- Sgiliau Gwasanaeth Bwyd a Diod Cyffredinol Lefel 1

[Gweithgareddau Sgiliau](#)

Apply online at [www.colegwent.ac.uk](http://www.colegwent.ac.uk)

[studentrecruitment@colegwent.ac.uk](mailto:studentrecruitment@colegwent.ac.uk) | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)





# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

## [Mathemateg a Saesneg](#)

Cymwysterau perthnasol eraill i gyfoethogi eich set sgiliau

### **Beth a ddisgwylir ohonof i?**

I gofrestru, rydych angen o leiaf 4 TGAU gradd G neu uwch, gan gynnwys Mathemateg/Rhifedd a Chymraeg Iaith Gyntaf/Saesneg; neu gymhwyster Lefel Mynediad priodol.

Mae'n rhaid ichi ddangos brwdfrydedd am y diwydiant lletygarwch ac arlwyo. Byddwch angen bod yn berson sy'n gallu cymell ei hun, gweithio'n galed, yn rhifog ac â phersonoliaeth gyfeillgar. Mae presenoldeb a phrydlondeb ym mhob sesiwn yn un o brif ofynion y cwrs, a bydd gofyn ichi hefyd fynychu profiad gwaith yn wythnosol neu mewn bloc.

### **Beth sy'n digwydd nesaf?**

Diploma Lefel 2 mewn Coginio Proffesiynol a/neu Lefel 2 mewn Gwasanaeth Bwyd a Diod (yng Nghampws Crosskeys) NVQs yn y gweithle mewn meysydd sy'n ymwneud â choginio proffesiynol, gwasanaeth bwyd a diod, gwasanaeth blaen ty, gwasanaeth cwsmer a gwasanaethau cegin.

### **Gwybodaeth Ychwanegol**

Bydd gofyn ichi brynu offer llawn, dillad cogydd a gwisg y bwyty a fydd yn costio tua £230.00, a bydd angen £50.00 ar gyfer manion.

Apply online at [www.coleggwent.ac.uk](http://www.coleggwent.ac.uk)

[studentrecruitment@coleggwent.ac.uk](mailto:studentrecruitment@coleggwent.ac.uk) | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

